**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J E Burtonshaw | M C Child |
| E W Fitzgerald | J A Hale | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | W G Lewis |
| G J Tanner | W G Thomas | T M White |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | S M Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Pamela Milford | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):
Aelodau Cyfetholedig Statudol:
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: J W Jones

---

## 14 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 15 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 17 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 18 Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad ar 'Graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe' a chroesawodd y Cynghorydd Andrea Lewis, y Cynghorydd Clive Lloyd, Roger Thomas, Adam Hill a Cherrie Bija a oedd i gyd yn bresennol i ystyried yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cynghorydd Clive Lloyd, cyn-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Adroddiad Blynyddol 19/20 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a thynnodd sylw at y canlynol:

- Adolygiad Llywodraethu a Strwythur Newydd
- Gweithio tuag at fethodoleg sy'n fwy seiliedig ar gyd-gynhyrchu
- Sefydlu 4 amcan allweddol -
  1. Blynyddoedd Cynnar
  2. Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda
  3. Gweithio gyda Natur
  4. Cymunedau cryf
- Ymgorffori'r pedwar amcan yn sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'u busnes dyddiol
- Y gallu i ymateb a chydweithio ar faterion allweddol wrth iddynt godi e.e. diogelwch cymunedol a grwpiau digwyddiadau critigol ar linellau sirol
- Effaith COVID-19 - dim cyfarfod ffurfiol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, ond cafwyd ymateb rhanbarthol a chydweithio ardderchog yn ystod y pandemig
- Ystyried Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mwy rhanbarthol

Amlinellodd y Cynghorydd Andrea Lewis, Cadeirydd presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rai meysydd cynnydd ers cymryd yr awenau fel Cadeirydd

- Sefydlu 3 maes blaenoriaeth ar ôl COVID-19
  1. Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt
  2. Agenda Newid yn yr Hinsawdd Werdd
  3. Llinellau Sirol, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Siarter Newid yn yr Hinsawdd i'w chyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i annog sefydliadau partner i ymuno â'r siarter
- Cyffredinrwydd a chydweithio ar faterion rhanbarthol fel camddefnyddio sylweddau

Nododd Adam Hill, Dirprwy Brif Weithredwr, fod y cysylltiadau a'r rhwydweithiau rhanbarthol a adeiladwyd fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn galluogi gwell ymateb i bandemig COVID-19. Tynnodd sylw hefyd at rai meysydd cynnydd allweddol ar draws y 4 amcan lles:

- Blynyddoedd Cynnar – SKIP Meithrin, swyddog 30 awr o ofal plant a ariennir, hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant Dechrau'n Deg, ymgyrch Dechrau Gorau
- Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda – Y Sgwrs Fawr - fforymau ar draws y sir
- Gweithio gyda Natur – Digwyddiadau ymgysylltu â'r Isadeiledd Gwyrdd, Cynllun Plannu Coed Trefol, Fforwm Amgylcheddol Abertawe a Chanolfan Amgylcheddol
- Cymunedau Cryfach – gwelliannau i'r Stryd Fawr yn ogystal ag ymatebion allweddol a chydweithio ar droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, llinellau sirol, camddefnyddio sylweddau, gweithwyr rhyw ar y stryd a manteisio ar bobl sy'n agored i niwed a mannau cyhoeddus

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Cylch Gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyflawni amcanion lles
- Rhai enghreifftiau o welliannau/fentrau a weithredwyd – faniau patrolio rheolaidd ar y Stryd Fawr, rhaglen cyfnewid nodwyddau, prosiect SWAMP, parseli bwyd i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ystod COVID-19, ymgyrch lanhau ar gyfer siopau ac unedau manwerthu, gwella tai ar y Stryd Fawr, ymatebion i ymddygiad gwrthgymdeithasol, plannu coed trefol, Men's Sheds, cyllid a sicrhawyd ar gyfer tanau ar Kilvey Hill, cynigion gofal plant a Dechrau'n Deg.
- Grŵp Digwyddiadau Difrifol a chydweithio ar faterion sy'n gofyn am ymateb cyflym
- Anhawster cyrraedd nodau tymor hir a chyflawni uchelgeisiau gyda heriau ariannol a newid gwleidyddol
- Archwilio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol er mwyn osgoi dyblygu gwaith i sefydliadau sy'n gweithio ar draws nifer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Strwythur gweithio mewn partneriaeth yn ystod COVID-19
- Gwaith o gwmpas gwella pa mor barod yw plant i fynychu'r ysgol – y gallu i fonitro a mesur cynnydd
- Trefniadau mesur a rheoli perfformiad i ddangos y gwahaniaeth y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud
- Anhawster mesur effaith rhai camau gweithredu, yn enwedig rhai tymor hir, ac wrth ddelio â chanlyniadau mwy ansoddol a hefyd lle mae angen ystyried canlyniadau meintiol negyddol e.e. yr hyn na ddigwyddodd o ganlyniad i weithred/fenter
- Materion ariannu ac adnoddau dan bwysau mewn sefydliadau partner – defnyddioldeb cyllidebau cyfun pe baent ar gael

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Clive Lloyd, y Cynghorydd Andrea Lewis, Roger Thomas ac Adam Hill.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 19 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Addysg (Y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd)

Cyflwynodd y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd y Panel Craffu Perfformiad Addysg, adroddiad ar 'yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Panel Craffu Perfformiad Addysg'. Amlygodd y canlynol yn benodol: -

- Pryder parhaus ynghylch tanberfformiad plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
- Anfonodd y Panel lythyr at yr holl athrawon a staff yn yr adran addysg, yn diolch iddynt am eu gwaith yn ystod y pandemig ac am roi dysgu cyfunol ar waith ar gyfer disgyblion
- Newidiadau i Gynllun Gwaith y Panel er mwyn peidio ag ychwanegu gormod o waith ychwanegol at y rhai sy'n ymdrin â COVID-19, o ystyried y pwysau presennol

Trafododd y pwyllgor yr angen i'r Panel ofyn am ganlyniadau'r Grant Datblygu Disgyblion a monitro ei effaith yn lleol.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 20 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu', yn dilyn cytuno ar raglen waith craffu

**Penderfynwyd** cymeradwyo aelodaeth y paneli a'r gweithgor fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 21 Rhaglen Waith Craffu 2020/22.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am Raglen Waith Craffu 2020/22.

Nodwyd y byddai'r Rhaglen Waith yn destun ceisiadau gan gynghorwyr/y cyhoedd a dderbynnir drwy gydol y flwyddyn. Derbyniwyd cais cyhoeddus ynglŷn â phryderon ynghylch y gwaith ar y llwybr ceffylau yng nghoedwig Dyffryn Clun, sydd wedi'i anfon at Aelod y Cabinet dros wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i ymateb iddo. Soniodd y Cadeirydd hefyd am ohebiaeth gyhoeddus a dderbyniwyd gyda safbwyntiau a oedd yn ymwneud â'r adroddiad Cabinet sydd ar y gweill ar 'Prydlesu Arfaethedig i Gyngor Cymunedol y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol', ynghylch datblygu parc sglefrio newydd. Bydd yr adroddiad hwn yn destun craffu cyn penderfynu yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Ionawr.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at gynnwys nifer bach o bynciau penodol yng nghynllun gwaith y pwyllgor er mwyn sicrhau bod digon o sylw i graffu ar draws holl bortffolios y Cabinet a'u bod yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y rhaglen waith gyffredinol.

Darparwyd cynlluniau gwaith ar gyfer Paneli Craffu Perfformiad ar gyfer ymwybyddiaeth y Pwyllgor. Nodwyd bod rhai cynlluniau gwaith y Panel Perfformiad wedi'u haddasu er mwyn cefnogi adrannau i ymdrin â COVID-19 a heb greu llwyth gwaith ychwanegol sylweddol. Cyfeiriodd Cynullydd Panel Perfformiad yr

Amgylchedd Naturiol at ganslo cyfarfod a gynlluniwyd ar gyfer 14 Rhagfyr oherwydd pwysau COVID-19 a oedd yn effeithio ar bresenoldeb aelodau'r Cabinet/swyddogion.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 22 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys gohebiaeth â'r arweinydd yn dilyn trafodaeth ar yr ymateb i COVID-19 a'r cynllun adfer yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Tachwedd.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cofnod llythyrau'r tîm craffu.

## 23 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

**Llythyr at Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Daeth y cyfarfod I ben am 5.35 pm

**Cadeirydd**